



# Templed

## Rheoli Safleoedd Rhandiroedd Pecyn Cymorth: Cyfansoddiad Enghreifftiol ar gyfer cymdeithas fach anghorfforedig

### Rhagarweiniad

---

Mae Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gynhyrchu pecyn o adnoddau i helpu sicrhau fod awdurdodau lleol ac eraill sy'n gysylltiedig â rheoli safleoedd rhandiroedd yng Nghymru yn manteisio i'r eithaf ar botensial y safleoedd ar gyfer y boblogaeth leol.

Gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, mae FfaGC Cymru wedi llunio dogfen cyfarwyddyd ar gyfer awdurdodau lleol, tyfwyr a grwpiau tyfu yng Nghymru sy'n cynnwys trosolwg o ran rheoli safleoedd rhandiroedd.

Mae'r daflen ffeithiau hon yn un o gyfres sy'n rhoi mwy o fanylion ar y pynciau amrywiol sy'n rhan o'r Cyfarwyddyd.

Mae'r pecyn cymorth yn cynnwys cyfres o daflenni ffeithiau sy'n ehangu ar bynciau amrywiol sy'n cael sylw yn y Canllawiau.

Mae'r pecyn cymorth hefyd yn cynnwys detholiad o dempledi sampl tenantiaeth a dogfennau cyfreithiol eraill i gynorthwyo gyda rheoli safle.

Gellir lawrlwytho'r holl adnoddau hyn o:

[www.farmgarden.org.uk/allotment-site-management-toolkit](http://www.farmgarden.org.uk/allotment-site-management-toolkit)

### Sut i ddefnyddio'r cyfansoddiad hwn

Gellir addasu'r cyfansoddiad model hwn i gyd-fynd â'r amgylchiadau ar lawr gwlad ar unrhyw safle rhandiroedd.



# Cyfansoddiad Enghreifftiol ar gyfer cymdeithas fach anghorfforedig

---

## 1) Enw

Enw'r grŵp fydd Cymdeithas Rhandiroedd .....

## 2) Nodau

Nodau Cymdeithas Rhandiroedd ..... fydd:

.....  
.....  
.....

## 3) Aelodaeth

a) Mae aelodaeth yn agored i unrhyw un sydd:

i) .....

ii) .....

iii) .....

b) Bydd aelodaeth yn cychwyn unwaith y derbynnir y ffurflen ymaelodi a'r taliad am y flwyddyn gyntaf.

c) Cytunir ar ffi aelodaeth flynyddol, yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (CCB) fydd yn daladwy gan bob aelod.

ch) Bydd yr Ysgrifennydd Aelodaeth yn cadw rhestr aelodau.

## 4) Rhoi'r gorau i fod yn aelod

a) Gall aelodau ymddiswyddo ar unrhyw adeg trwy ysgrifennu at yr ysgrifennydd.

b) Bydd y pwyllgor yn cysylltu ag unrhyw aelod sydd heb dalu ffi aelodaeth am flwyddyn, fydd wedyn yn penderfynu a ydynt yn tybio fod yr aelod dan sylw wedi ymddiswyddo.

c) Ni chaniateir unrhyw ymddygiad ymosodol, gan gynnwys sylwadau hiliol, rhywiol neu lidiol. Gellir gofyn i unrhyw un sy'n ymddwyn mewn ffordd ymosodol neu sy'n torri polisi cyfleoedd cyfartal beidio â mynychu unrhyw gyfarfodydd pellach, neu i ymddiswyddo o'r grŵp os na dderbynnir ymddiheuriad neu os bydd yr ymddygiad yn digwydd eto. Bydd gan yr unigolyn dan sylw'r hawl i gael ei glywed gan y pwyllgor rheoli, yng nghwmni ffrind, cyn gwneud penderfyniad terfynol.

## 5) Cyfleoedd cyfartal

Ni fydd Cymdeithas Rhandiroedd .....yn gwahaniaethu ar sail cenedl, hil, lliw, tarddiad ethnig neu genedlaethol, rhywioldeb, anabledd, crefydd neu gredoau gwleidyddol, statws priodasol neu oedran.

## 6) Swyddogion a'r pwyllgor

a) Pwyllgor sy'n cael ei ethol yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol fydd yn gyfrifol am fusnes y grŵp. Bydd y pwyllgor yn cwrdd fel bo angen, a heb fod yn llai na phedair gwaith y flwyddyn.

b) Bydd y Pwyllgor yn cynnwys [noder y nifer] o aelodau, a bydd yn cynnwys [noder y nifer] o swyddogion a [noder y nifer] o aelodau'r pwyllgor. Gellir cyfethol hyd at [noder y nifer] o aelodau ychwanegol ar y pwyllgor yn unol â dewis y pwyllgor.

c) Bydd rolau'r swyddogion fel a ganlyn:

i) Cadeirydd, fydd yn cadeirio cyfarfodydd cyffredinol a chyfarfodydd y pwyllgor

ii) Ysgrifennydd, fydd yn gyfrifol am gymryd cofnodion ac am ddsbarthu papurau

iii) Ysgrifennydd Aelodaeth, fydd yn gyfrifol am gadw cofnod o aelodau

iv) Trysorydd, fydd yn gyfrifol am gadw cyfrifon y gymdeithas.

- ch) Os bydd un o'r swyddogion yn ymddiswyddo yn ystod y flwyddyn, bydd Cyfarfod Cyffredinol nesaf yr aelodau'n ethol swyddog yn ei le.
- d) Bydd y pwyllgor yn cysylltu ag unrhyw aelod o'r pwyllgor nad yw'n bresennol mewn cyfarfod, heb anfon ymddiheuriadau, am gyfnod o dri mis, ac yn gofyn a yw am ymddiswyddo.
- dd) Bydd cyfarfodydd y Pwyllgor yn agored i unrhyw aelod o Gymdeithas Rhandiroedd [noder yr enw] sydd am fod yn bresennol, fydd yn cael siarad ond nid pleidleisio.

## 7) Y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

- a) Cynhelir Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (CCB) o fewn pymtheg mis i'r CCB diwethaf.
- b) Bydd pob aelod yn derbyn hysbysiad ysgrifenedig o leiaf tair wythnos cyn dyddiad y cyfarfod, sy'n nodi lleoliad, dyddiad ac amser y cyfarfod.
- c) Dylid anfon enwebiadau ar gyfer swyddogion y pwyllgor at yr Ysgrifennydd cyn y cyfarfod, neu yn ystod y cyfarfod.
- ch. Y cworwm ar gyfer y CCB fydd 10% o'r aelodaeth neu 10 aelod, pa un bynnag yw'r nifer fwyaf.
- d) Yn y CCB:
  - i) Bydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad o waith Cymdeithas Rhandiroedd [noder yr enw] dros y flwyddyn aeth heibio.
  - ii) Bydd y Pwyllgor yn cyflwyno cyfrifon Cymdeithas Rhandiroedd [noder yr enw] am y flwyddyn aeth heibio.
  - iii) Cynhelir etholiadau i ethol Swyddogion a'r Pwyllgor am y flwyddyn nesaf.
  - iv) Caiff unrhyw gynigion a gyflwynwyd i'r Ysgrifennydd o leiaf 7 diwrnod cyn y cyfarfod eu trafod.

## 8) Cyfarfodydd Cyffredinol Arbennig

- a) Bydd yr Ysgrifennydd yn galw Cyfarfod Cyffredinol Arbennig ar gais mwyafrif y pwyllgor neu o leiaf wyth aelod arall sy'n anfon cais ysgrifenedig at y Cadeirydd neu'r Ysgrifennydd sy'n nodi'r rheswm dros eu cais.
- b) Cynhelir y cyfarfod o fewn dau ddeg un diwrnod i dderbyn y cais.
- c) Bydd pob aelod yn derbyn pythefnos o rybudd o gyfarfod cyffredinol arbennig sy'n nodi lleoliad, dyddiad amser ac agenda'r cyfarfod, a gellir cyflwyno'r rhybudd dros y ffôn, drwy ebost neu'r post.
- ch) Y cworwm ar gyfer Cyfarfod Cyffredinol Arbennig fydd 10% o'r aelodaeth neu 10 aelod, pa un bynnag yw'r nifer fwyaf.

## 9) Cyfarfodydd Cyffredinol

- a) Mae Cyfarfodydd Cyffredinol ar agor i bob aelod, ac fe'u cynhelir o leiaf unwaith bob 3 mis, neu'n amlach os oes angen.
- b) Bydd pob aelod yn derbyn pythefnos o rybudd o gyfarfod cyffredinol, sy'n nodi lleoliad, dyddiad, amser a'r agenda, a gellir cyflwyno'r rhybudd dros y ffôn, drwy ebost neu'r post.
- c) Y cworwm ar gyfer Cyfarfod Cyffredinol fydd 10% o'r aelodaeth neu 5 aelod, pa un bynnag yw'r nifer fwyaf.

## 10) Cyfarfodydd Pwyllgor

- a) Gall y Cadeirydd neu'r Ysgrifennydd galw cyfarfodydd pwyllgor. Mae'n rhaid rhoi rhybudd o 7 diwrnod i aelodau'r pwyllgor cyn dyddiad y cyfarfod.
- b) Y cworwm ar gyfer cyfarfodydd Pwyllgor yw tri aelod o'r Pwyllgor.

## 11) Rheolau a Gweithdrefnau cyfarfodydd

- a) Caiff unrhyw gwestiwn sy'n cael ei ddwyn gerbron cyfarfod ei drafod yn agored, a bydd y cyfarfod yn ceisio cyrraedd cytundeb cyffredinol sy'n dderbyniol i bawb sy'n bresennol.
- b) Os nad yw'n bosib cyrraedd consensws, cynhelir pleidlais, a gwneir penderfyniad trwy fwyafrif syml o'r aelodau sy'n bresennol. Os bydd nifer y pleidleisiau o blaid ac yn erbyn yn gyfartal, bydd gan Gadeirydd y cyfarfod bleidlais fwrw ychwanegol.

## 12) Cyllid

- a) Bydd gan Gymdeithas Rhandiroedd [noder yr enw] gyfrif banc mewn banc a gytunir gan y pwyllgor.
- b) Bydd y Pwyllgor yn enwebu tri unigolyn i lofnodi sieciau (un ohonynt fydd y Trysorydd). Ni chaniateir i'r unigolion sy'n llofnodi fod yn berthnasau nac yn aelodau o'r un cartref.
- c) Bydd angen i ddau unigolyn lofnodi pob taliad.
  - i) Ar gyfer taliadau siec, byddant yn llofnodi'r siec.
  - ii) Ar gyfer taliadau eraill (megis taliadau BACS, i dynnu arian parod, taliadau gyda cherdyn debyd neu daliadau arian parod), bydd gofyn i ddau unigolyn sydd â hawl i lofnodi, lofnodi nodyn archeb, fydd yn cael ei gadw gan y Trysorydd.
- ch) Y Trysorydd fydd yn cadw cofnod o incwm a gwariant, a bydd yn rhoi adroddiad ariannol ym mhob cyfarfod.
- d) Bydd unrhyw arian sy'n cael ei godi gan neu ar ran Cymdeithas Rhandiroedd [noder yr enw] yn cael ei ddefnyddio'n unig i hyrwyddo nodau'r grŵp fel y nodir yn eitem 2 y cyfansoddiad hwn.

## 13) Diwygio'r Cyfansoddiad

- a) Dim ond mewn Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol neu Gyfarfod Cyffredinol Arbennig y gellir diwygio'r cyfansoddiad.
- b) Mae'n rhaid cyflwyno unrhyw gynnig i ddiwygio'r cyfansoddiad ar ffurf ysgrifenedig i'r Ysgrifennydd. Wedyn mae'n rhaid dosbarthu'r cynnig gyda rhybudd o'r cyfarfod.
- c) Bydd angen mwyafrif o ddwy ran o dair o'r rhai sy'n bresennol ac sydd â hawl i bleidleisio, i gymeradwyo unrhyw gynnig i ddiwygio'r cyfansoddiad.

## 14) Diddymu

- a) Os bydd cyfarfod yn penderfynu, trwy fwyafrif syml, bod yn rhaid cau'r grŵp, gellir galw Cyfarfod Cyffredinol Arbennig i wneud hynny. Unig fusnes y cyfarfod hwn, fydd diddymu'r grŵp.
- b) Os cytunir i ddiddymu'r grŵp, bydd unrhyw arian ac unrhyw asedau eraill sydd yn weddill, ar ôl talu unrhyw ddyledion sy'n weddill, yn cael ei roi i sefydliad elusennol lleol. Bydd penderfyniad ynghylch y sefydliad fydd yn ei dderbyn yn cael ei wneud yn y cyfarfod lle penderfynir diddymu'r grŵp.

Cytunwyd y cyfansoddiad hwn yng Nghyfarfod Cyffredinol Agoriadol Cymdeithas Rhandiroedd

..... on ...../...../.....

Enw: .....

Swydd yn y gr p: .....

Llofnod: .....

Dyddiad: ...../...../.....

Enw: .....

Swydd yn y gr p: .....

Llofnod: .....

Dyddiad: ...../...../.....

Enw: .....

Swydd yn y gr p: .....

Llofnod: .....

Dyddiad: ...../...../.....



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



Contact us: Tel: 02920 225 942 / Email: [wales@farmgarden.org.uk](mailto:wales@farmgarden.org.uk)  
Website: [www.farmgarden.org.uk](http://www.farmgarden.org.uk)